*Slogan: Adfer Enw Da Ynys Môn / Making Anglesey Proud Again*

**CYNGOR SIR YNYS MÔN**

**RHAGLEN BOLISI PLAID CYMRU AR GYFER LLYWODRAETHU'R CYNGOR**

1. Gweledigaeth Plaid Cymru ydi creu cymdeithas ym Môn sy'n rhoi cyfle i bob dinesydd ddatblygu i'w llawn botensial; i warchod pobl fregus yn eu cymuned; i amddiffyn yr amgylchedd; i hybu cymdeithas iach; i ddatblygu economi ffyniannus ar gyfer yr Ynys; i wella ansawdd ac effeithlonrwydd trafnidiaeth; ac i barchu, diogelu a hyrwyddo'r iaith Gymraeg ei diwylliant a'i threftadaeth.

**2. DATBLYGU ECONOMAIDD, GWAITH A THWRISTIAETH**

Mae Plaid Cymru yn credu fod Ynys Môn yn lle arbennig i fyw ac y dylai'r Cyngor, felly, weithredu i geisio creu gwahanol gyfleon cyflogaeth fel y gall pawb gael y cyfle i fyw ar Ynys Môn am weddill eu hoes pe dymunent hynny.
Prif flaenoriaeth i Gyngor sy'n cael ei arwain gan Blaid Cymru fydd hyrwyddo polisïau fydd yn creu gwaith amrywiol i'n pobl ifanc ac i ddenu yn ôl i Fôn y bobl ifanc hynny sydd wedi gadael yr ynys yn groes i'w dymuniad. Trwy wneud hyn, ein nod yw gwella GVA (Gross Value Added) yr ynys.

2.1 Er mwyn sicrhau'r nod hwn fe fydd Plaid Cymru yn sicrhau y bydd strategaeth lydan "aml-ffocws" yn ei lle gyda pholisïau ar gyfer y tymor byr, canolig a hir.

2.2 Bydd Plaid Cymru yn edrych yn fuan ar ddulliau amrywiol ac amgen o hybu a datblygu economaidd er mwyn creu gwaith i'n pobl a dylid cryfhau cysylltiadau gyda Phrifysgol Bangor, y Parc gwyddoniaeth arfaethedig a Choleg Menai er mwyn defnyddio medrau a gwybodaeth newydd i annog a hybu diwydiannau bach newydd ar yr Ynys.

2.3 Mae Plaid Cymru yn credu'n gryf mewn creu cyfleoedd i ddatblygu sgiliau ar gyfer y diwydiannau ynni gwyrdd, yn gyffredinol fel rhan o'n strategaeth Ynys Ynni. Os daw Wylfa B byddwn am uchafu'r nifer o swyddi fydd ar gael i bobl leol a sicrhau fod blaenoriaeth i gwmnïau lleol i gael contractau ar gyfer y gwaith adeiladu a chynnal a chadw.

2.3.1 Er mwyn sicrhau'r amcanion hyn bydd Plaid Cymru yn galw ar y Diwydiant Adeiladu i ddechrau recriwtio a hyfforddi prentisiaid yn lleol (gyda lleoliadau mewn llefydd eraill os bydd angen) ar gyfer y cyfnod adeiladu ar y cyfle cyntaf.

2.3.2 Bydd Plaid Cymru yn galw hefyd am bartneriaeth rhwng y sector gyhoeddus a'r sector breifat i gynnal yr Uned yng Ngholeg Menai ar gyfer hyfforddi gweithredwyr gorsaf ynni fydd wedi eu recriwtio'n lleol, gan adeiladu ar y Ganolfan Ynni a Gwneuthuriad.

2.3.3 Bydd Plaid Cymru yn galw ymhellach am ymrwymiad i sicrhau bod yr holl bobl leol sydd am weithio yn Wylfa yn cael cyfle i wneud hynny ar yr amod bod ganddynt y sgiliau priodol.

2.4 Ynni Cynaliadwy - Bydd Plaid Cymru yn gwrthwynebu rhes o beilonau newydd ar draws yr ynys ac yn hyrwyddo'r opsiwn o gysylltiadau trydan o dan y môr neu danddaearol. Cefnogwn ynni gwynt y môr ond gwrthwynebwn dyrbeini diwydiannol uwch na 12 metr ar y tir. Cefnogwn dyrbeini domestig unigol.

2.5 Bydd Plaid Cymru yn edrych i gefnogi busnesau bach lleol trwy ganiatáu iddynt gystadlu am gontractau gwasanaethau'r Cyngor Sir naill a'i trwy gael contractau bach o ran maint

neu trwy gydweithio gyda'r sector busnes lleol, Coleg Menai, Prifysgol Bangor a Llywodraeth Cymru i annog, hyfforddi a hyrwyddo busnesau bach lleol i ennill contractau lleol yn y sector cyhoeddus.

2.6 Bydd Plaid Cymru yn gweithio i ddenu arian Ewropeaidd er mwyn cefnogi prosiectau adfywio ac yn cydweithio gyda Gwynedd a chynghorau eraill yn y Gogledd i ddod â buddsoddiad i'r gogledd orllewin.

2.7 Bydd Plaid Cymru yn cefnogi mentrau fel Menter Môn creu swyddi trwy ddefnyddio cynlluniau grantiau hyd at £5,000 i gynorthwyo busnesau bach i ymsefydlu ar yr Ynys. Bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio fel arian cyfatebol ar gyfer grantiau eraill.

2.8 Bydd Plaid Cymru yn hyrwyddo Ynys Môn fel cyrchfan addas i ymwelwyr ac yn lobio am gefnogaeth i westai lleol a sefydliadau gwely a brecwast i ddarparu gwell gwasanaeth. Byddwn yn gweithio gyda Menter Môn ar achlysuron fel Ras Marathon Môn ac yn gweithio drwy raglen Môn - Menai i hyrwyddo defnydd cynyddol o Borthladd Caergybi ar gyfer llongau moethus. Bydd angen cydweithio gyda phartneriaeth twristiaeth Ynys Môn, Bwrdd Twristiaeth Gogledd Cymru a Chroeso Cymru er mwyn sicrhau bod Ynys Môn yn cael ei marchnata i groesdoriad mor eang â phosibl o ymwelwyr byd-eang.

2.9 Bydd Plaid Cymru yn ceisio hybu cysylltiadau gydag Iwerddon er mwyn denu twristiaid o'r wlad ohono i ymweld ag Ynys Môn.

2.10 Bydd Plaid Cymru yn sicrhau fod yr Adran Datblygu Economaidd a Thwristiaeth yn cysylltu ac yn cydweithredu gydag uned digwyddiadau mawr Llywodraeth Cymru i hybu gweithgareddau mawr ar Ynys Môn.

## 3. ADDYSG A HAMDDEN

Mae Plaid Cymru yn cydnabod hawl bob plentyn i dderbyn gwasanaethau o'r radd flaenaf.

3.1 O ganlyniad, bydd Plaid Cymru yn datblygu gwasanaeth addysg fel bod pob plentyn yn cael datblygu i'w lawn botensial ac rydym yn cadarnhau ein cefnogaeth i'r cyfnod sylfaen. Yr ydym hefyd yn sylweddoli y dylai pob plentyn gael y cyfle i gael dewisiadau sydd mor eang â phosibl i fod yn ddinasyddion cyflawn, a byddwn yn hyrwyddo ymhellach y cydweithredu unigryw sydd yn digwydd yn ysgolion Môn ac ar draws Gogledd Cymru i sicrhau bod hynny'n digwydd.

3.2 Mae Plaid Cymru yn cydnabod bod y gyllideb addysg fel cyllidebau'r gwasanaethau eraill yn y Cyngor yn dioddef o bwysau sylweddol, a byddwn yn wynebu'r wasgfa ariannol tymor hir ar y sail ein bod am ddiogelu cymaint â phosibl o'r arian sy'n mynd yn uniongyrchol i ysgolion cynradd ac uwchradd. At hyn, rydym yn addo y bydd unrhyw benderfyniad a wneir gan Lywodraeth Cymru i ddiogelu cyllidebau ysgolion yn cael ei barchu ac y bydd cyllidebau ein hysgolion yn manteisio o hynny.

3.3 Mae Plaid Cymru yn ymwybodol o'r angen i foderneiddio'r gwasanaeth addysg ym Môn a byddwn yn selio unrhyw benderfyniadau rhesymoli ar sail meini prawf addysgol clir. Bydd Plaid Cymru yn sicrhau ein bod yn uchafu cyllid ysgolion yr 21ain Ganrif gan Lywodraeth Cymru.

3.4 Mae Plaid Cymru yn cydnabod cyfraniad cynyddol ysgolion Môn i ddarparu addysg cyfrwng Cymraeg ac yn gweld hwnnw fel darpariaeth bwysig. O ganlyniad, rydym yn credu y dylai unrhyw gynllun rhesymoli fod ar y sail na fydd unrhyw leihad mewn addysg

cyfrwng Cymraeg. Yn ogystal, bydd disgwyl i'r ysgolion gynyddu'r ddarpariaeth o addysg cyfrwng Cymraeg mewn cydweithrediad ag Adran Addysg y Cyngor Sir.

3.5 Bydd Plaid Cymru yn cefnogi addysg alwedigaethol i gyfarfod ag anghenion y gweithlu yn y dyfodol.

3.6 Bydd Plaid Cymru yn cefnogi ein hysgolion i barhau i baratoi plant ar gyfer ennill graddau uchel yn y cyrsiau galwedigaethol yn ogystal ag yn yr arholiadau Lefel A, a TGAU a'r Fagloriaeth Gymraeg

3.7 Bydd Plaid Cymru yn annog ein hysgolion i sicrhau bod ein plant sydd ag anghenion arbennig yn derbyn y gefnogaeth orau er mwyn llwyddo yn eu hastudiaethau.

3.9 Mae Plaid Cymru yn croesawu agor ysgol gynradd fodern, werdd newydd yn Llangefni ac yn edrych ymlaen at ddatblygiadau tebyg mewn rhannau eraill o'r Ynys.

3.10 Cred Plaid Cymru fod ein hysgolion yn gwneud cyfraniad sylweddol i'n cymunedau ac felly mae'n disgwyl y bydd cyfleusterau/adnoddau'r ysgolion ar gael i'n cymunedau gyda'r nos.

3.11 Bydd Plaid Cymru yn ail-edrych ar y ddarpariaeth o ganolfannau hamdden yn wyneb y gwrthwynebiad i gau rhai canolfannau yn 2012/13

## 4. GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

4.1 Bydd Plaid Cymru yn blaenoriaethu gwasanaethau a bydd yn diogelu buddiannau'r rhai mwyaf bregus yn ein cymunedau.

4.2 Bydd Plaid Cymru yn edrych ar ffyrdd gwahanol i ddatblygu ystod o wasanaethau i bobl hŷn i'w galluogi hwy i gadw eu hannibyniaeth ac i hyrwyddo eu lles.

4.3 Bydd Plaid Cymru, trwy bartneriaeth yn rhoi anogaeth i ddatblygu gwasanaethau ataliol yn y gymuned.

4.4 Bydd Plaid Cymru yn parhau i gefnogi gwasanaethau i gadw'r lefel isel o drosglwyddo gofal fel sy'n digwydd ar hyn o bryd.

4.5 Bydd Plaid Cymru yn hyrwyddo, lle bynnag y bo hynny'n bosibl yn ariannol ac yn briodol, ddatblygu tai gofal ychwanegol i gynnwys safleoedd gwasanaeth "sail a chlwstwr".

4.6 Bydd Plaid Cymru yn annog y Gwasanaethau Cymdeithasol a'u partneriaid i osgoi dyblygu wrth ddarparu gwasanaethau llinell flaen.

4.7 Mae Plaid Cymru yn cydnabod yr angen am wasanaethau gofal plant diogel ac o ansawdd uchel a bydd yn gweithio gyda darparwyr i ddatblygu hyn.

## 5. TAI / CARTREFI

5.1 Bydd Plaid Cymru yn cymryd camau i annog perchnogion tai gwag i ddod a'r tai hynny i mewn i'r farchnad rent.

5.2 Mae Plaid Cymru yn credu y dylai'r Cyngor atal yr hawl i brynu tai Cyngor mewn ardaloedd penodol lle mae yna ddiffyg sylweddol o dai i'w rhentu.

5.3 Bydd Plaid Cymru yn rhyddhau tir sy'n eiddo i'r Cyngor ar gyfer hunan-adeiladu tai fforddiadwy.

5.4 Bydd Plaid Cymru yn pwyso ar Lywodraeth Cymru i ryddhau adnoddau ar gyfer cartrefi fforddiadwy fydd yn galluogi'r Ynys i greu gwaith, i greu cartrefi gwyrdd a fforddiadwy.

5.5 Bydd Plaid Cymru yn adolygu tai cymdeithasol i gyfarfod ag anghenion lleol.

**6. ADNODDAU DYNOL**

6.1 Mae Plaid Cymru yn cydnabod mai asedion pwysicaf yr awdurdod yw'r bobl sy'n gweithio i'r awdurdod. Mae Plaid Cymru hefyd yn cydnabod mai ymrwymiad ein staff yw'r peth pwysicaf wrth ddarparu gwasanaethau o ansawdd i'r Cyngor.

6.2 Bydd Plaid Cymru yn disgwyl i'r holl reolwyr ysbrydoli ein staff i groesawu newid trwy waith tîm a threfniadau gweithio cydweithredol ac arloesol er mwyn gwella ansawdd ac effeithiolrwydd y ddarpariaeth o wasanaeth.

6.3 Bydd yr holl newidiadau mawr yn cael eu gweithredu mewn ymgynghoriad â'r undebau.

**7. TRAFNIDIAETH**

7.1 Bydd Plaid Cymru yn ymchwilio i'r posibilrwydd o "fenthyca pwyllog" ar gyfer trwsio ein ffyrdd.

7.2 Bydd Plaid Cymru yn adolygu'r polisi graeanu ffyrdd yn ystod tywydd oer mewn cydweithrediad gyda Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod gwasanaethau hanfodol fel cludiant cyhoeddus a'r gwasanaethau argyfwng yn cael blaenoriaeth.

7.3 Bydd Plaid Cymru yn lobïo Llywodraeth Cymru i wella'r cysylltiadau ar Bont Britannia a'r fynedfa i Borthladd Caergybi a Depo'r Rheilffordd.

7.4 Bydd Plaid Cymru yn gweithio gyda Gorsaf RAF y Fali a Llywodraeth Cymru i ddatblygu maes awyr Ynys Môn fel hwb pwysig gyda llwybrau hedfan ychwanegol.

**8. YR AMGYLCHEDD**

Mae Plaid Cymru yn credu mewn cymunedau gwyrddach a bydd yn:

8.1 Gosod targed bod 70% o'n gwastraff yn cael ei ailgylchu erbyn 2025.

8.2 Yn anelu i gasglu gwastraff bwyd o bob cartref ar yr ynys.

8.3 Ceisio cadw ein strydoedd yn lân.

8.4 Ystyried gwastraff fel deunydd crai gwerthfawr, a chefnogi gweithio gyda chynghorau ac asiantaethau eraill i wneud defnydd da o wastraff yn hytrach na defnyddio safleoedd tirlenwi. Byddwn yn cefnogi cydweithredu ar draws Gogledd Cymru i fanteisio ar yr arbedion y byddai un uned cael gwared ar wastraff yn ei gynhyrchu yn hytrach na nifer o unedau llai.

8.5 Bydd Plaid Cymru yn gweithio i warchod yr amgylchedd, ein hardaloedd gwledig, ein traethau a'n harfordir er budd trigolion Môn ac i hyrwyddo twristiaeth.

## 9. EIDDO

9.1 Mae Plaid Cymru yn credu y dylid gwerthu eiddo nad yw'n cael ei ddefnyddio'n llawn mwyach ar gyfer busnes y Cyngor, ond nid ydym yn fodlon gwerthu'r eiddo yn rhad, oni bai fod y tir ar gael ar gyfer tai fforddiadwy. Dylid cadw arian a godir o werthu eiddo i wella a moderneiddio eiddo'r Cyngor.

9.2 Bydd Plaid Cymru yn rhesymoli'r defnydd o adeiladau lle mae modd gwneud hynny.

9.3 Bydd Plaid Cymru yn dilyn rhaglen werdd trwy ymchwilio i'r posibilrwydd o osod panelau solar ac ati ar eiddo'r Cyngor i ostwng costau ynni a gwresogi.

9.4 Mae Plaid Cymru yn derbyn yr egwyddor y dylai ein mân-ddaliadau fod ar gael i'r bobl hynny nad ydynt yn gallu fforddio i brynu eu ffermydd eu hunain, ond y dylid adolygu agweddau ar y polisi i adlewyrchu'r hinsawdd sydd ohoni yn yr 21ain ganrif, mewn ymgynghoriad gyda'r diwydiant ffermio.

9.5 Bydd Plaid Cymru yn ceisio gwneud y defnydd gorau o'n mân-ddaliadau. Byddwn yn ystyried gwerthu rhai sydd gydag ychydig o aceri i ariannu gwelliannau i'r gweddill.

9.6 Bydd Plaid Cymru yn ceisio, lle mae modd gwneud hynny, cefnogi ceisiadau am dir er mwyn creu rhagor o randiroedd.

9.7 Bydd Plaid Cymru yn cyflwyno cynllun trosglwyddo asedau i wneud y defnydd mwyaf posib o adeiladau cyhoeddus a llecynnau mwynderau er budd cymunedau lleol.

## 10. CYLLID

10.1 Mae'r datblygiad arfaethedig ar gyfer y Wylfa newydd yn debygol o greu anghenion sylweddol ar gyfer isadeiledd ar yr Ynys. Bydd Plaid Cymru yn lobïo'r diwydiant i gyllido cost unrhyw ychwanegiad i'r isadeiledd, gan gynnwys hefyd unrhyw gostau ychwanegol i gynnal yr isadeiledd presennol.

10.2 Bydd Plaid Cymru yn agor trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru a gyda'r Llywodraeth yn Llundain, ar gyfer ariannu gwasanaethau cyhoeddus ym Môn ymlaen llaw er mwyn darparu gwasanaethau priodol ar gyfer y gweithlu. Felly, dylem dderbyn copi o'r llwybr critigol ar gyfer datblygu Wylfa cyn gynted ag y bo modd er mwyn gallu rhagweld pa wasanaethau ychwanegol bydd eu hangen.

10.3 Bydd Plaid Cymru yn cefnogi galwadau i ddiwygio'r fformiwla Barnett er mwyn sicrhau cyllido gwell ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

10.4 Bydd Plaid Cymru hefyd yn lobïo ar gyfer ac yn cefnogi newidiadau yn y system ddosbarthu o fewn Cymru i gynorthwyo cynghorau gwledig bychan mewn ardaloedd difreintiedig fel Ynys Môn.

## 11. GWASANAETH CWSMER

11.1 Bydd Plaid Cymru yn disgwyl i bob un o adrannau'r Cyngor adolygu eu harferion gweithio er mwyn datblygu gwaith tîm ac i nodi pa ddau aelod o staff fydd yn dirprwyo ar gyfer unrhyw aelod o staff a fydd yn absennol am unrhyw reswm i sicrhau bod gennym wasanaeth cwsmer o'r radd flaenaf.

11.2 Bydd Plaid Cymru yn rhoi blaenoriaeth i roi sylw i lefelau salwch er mwyn cynorthwyo'r staff a'r Cyngor i gynnal gwasanaethau.

11.3 Mae Plaid Cymru yn gwerthfawrogi ei swyddogion a'i staff a bydd yn ymgynghori gyda nhw a gweithio gyda nhw a'u cynrychiolwyr undebau i wella'r modd y darperir gwasanaethau.

## 12. CYNLLUNIO

12.1 Bydd Plaid Cymru yn symud ymlaen yn gyflym i greu cynllun datblygu lleol ar y cyd hefo Cyngor Sir Gwynedd a fydd yn egluro ac yn moderneiddio polisïau cynllunio.

12.2 Bydd Plaid Cymru yn newid polisi cynllunio ar sail nodiadau cyngor technegol a ddarperir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer caniatáu adeiladu cartrefi fforddiadwy mewn ardaloedd gwledig.

12.3 Bydd Plaid Cymru yn datblygu Polisi Mantais Gynllunio glir a fydd yn galluogi'r gymuned leol ac/neu'r Ynys i elwa o'r datblygiad.

12.4 Bydd Plaid Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i baratoi safleoedd addas ar gyfer diwydiant.

## 13. CYFRAITH A THREFN

Mae Plaid Cymru yn credu mewn cymunedau cryf y byddwn felly yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r Heddlu a Chynghorau Cymuned i sicrhau cymunedau mwy diogel. Bydd Plaid Cymru yn cydweithio a chyfarfod yn rheolaidd gyda Chomisiynydd yr Heddlu a gweithio i sicrhau bod darpariaeth o lysoedd Ynadon Heddwch yn ddigonol.

## 14. MATERION CORFFORAETHOL

Mae Plaid Cymru yn credu mewn llywodraeth agored a llywodraethu cryf sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac ennill hyder yr etholwyr a Llywodraeth Cymru ac felly bydd yn:

14.1 Cefnogi Cynllun Busnes Corfforaethol (2012) sydd yn sicrhau fod pob Adran yn troi eu blaenoriaethau yn weithredoedd, targedau chwarterol a threfniadau rheoli risg oll yn rhan hanfodol o bob cynllun.

14.2 Parhau gyda sesiynau "Hawl i Holi" a deialog agored gydag arweinwyr y Cyngor a'r cyhoedd, ar adegau i'w penderfynu a'u hysbysebu ymlaen llaw yng nghalendr blynyddol y Cyngor.

14.3 Byddwn yn sicrhau fod strategaeth gwella gwasanaeth wedi ei sefydlu ym mhob Adran erbyn Ebrill 2014. Bydd y strategaethau hyn yn cynnwys "canolfannau Kaizen", Cylchoedd Ansawdd, gweithgareddau Meincnodi a strategaeth Cywir Tro Cyntaf er mwyn gwella ansawdd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gwasanaethau.

14.4 Rhoi cyfle i bob Cynghorydd dderbyn hyfforddiant ar sut i wella perfformiad i baratoi ar gyfer y newidiadau sydd wedi cymryd lle. Gwnawn hyn er mwyn gwella safon gwasanaeth pob Cynghorydd.

14.5 Cydnabod bod stormydd ariannol wedi cyrraedd ac yn disgwyl y bydd pob adran yn fwy cost effeithiol er mwyn sicrhau bod modd i ni gadw'r ddarpariaeth o wasanaethau yn fewnol.

14.6 Os bydd y Cyngor angen prynu gwasanaethau yn allanol, bydd disgwyl i ddarparwyr ddarparu eu gwasanaethau rheng flaen yn ddwyieithog.

14.7 Anelu at lywodraethu a gweinyddu yn gynyddol ddwyieithog.

14.8 Gan mai'r awdurdod yw un o'r lleiaf yng Nghymru bydd yn cydweithio'n gynyddol gydag awdurdodau eraill, grwpiau gwirfoddol, sefydliadau sector cyhoeddus a phreifat i gymryd camau beiddgar i wella ansawdd gwasanaethau ac i ganfod arbedion effeithlonrwydd. Disgwylir i bob adran felly geisio cyfleoedd i gyfathrebu a chydweithredu gydag awdurdodau allanol eraill, a chydag adrannau mewnol eraill, ac i ailfodelu sut y darperir gwasanaethau.